

CYNGOR

(CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT)

Aelodau sy'n Bresennol:

4 Hydref 2023

Y Maer: **Cynghorydd C.Williams**

Y Dirprwy Faer **Cynghorydd M.Crowley**

Cynghorwyr: A.R.Aubrey, T.Bowen, W.Carpenter,
H.C.Clarke, C.Clement-Williams, A.Dacey,
H.Davies, H.Davies, O.S.Davies, R.Davies,
S.E.Freeguard, N.Goldup-John, W.F.Griffiths,
J.Hale, S.Harris, J.Henton, S.K.Hunt, J.Hurley,
C.James, N.Jenkins, J.Jones, L.Jones,
S.Jones, C.Jordan, D.Keogh, S.A.Knoyle,
E.V.Latham, C.Lewis, D.Lewis, A.Llewelyn,
A.R.Lockyer, A.Lodwig, K.Morris, S.Paddison,
D.M.Peters, C.Phillips, R.Phillips, S.Pursey,
P.A.Rees, S.Renkes, S.H.Reynolds,
A.J.Richards, P.D.Richards, P.Rogers,
L.Williams a/ac R.W.Wood

Swyddogion sy'n Bresennol: L.Beynon, S.Curran, N.Daniel, J.Hodges,
A.Jarrett, H.Jones, K.Jones, C.Morris,
A.Thomas, C.Plowman a/ac P.Chivers

Heddlu De Cymru Prif Uwch-arolygydd Chris Truscott
Uwch-arolygydd Eve Davies

1. **CYHOEDDIADAU'R MAER**

Gyda thristwch mawr hysbysodd y Maer y cyngor am farwolaethau mam y Cyng. Robert Wood a Mrs. Margaret Thorne, CBE, OBE, Rhyddfreniwr Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot a oedd yn adnabyddus am ei chyfraniad i wasanaethau gwirfoddol.

Safodd y cyngor am funud o dawelwch

2. **CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD**

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor drosolwg o'r cyhoeddiad ar y cyd a wnaed gan Lywodraeth y DU a Tata Steel ar 15 Medi 2023. Mae Llywodraeth y DU wedi cynnig buddsoddiad o £0.5bn gyda buddsoddiad pellach o £750m gan Tata Steel a fyddai'n ariannu'r gwaith o ddisodli'r ffwrneisi chwyth presennol gyda ffwrnais arc. Mae ymgynghoriad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd rhwng Tata Steel ac undebau llafur. Nododd yr Arweinydd fod y diwydiant dur yn hanfodol i'r economi leol ac ehangach a diogelwch cenedlaethol ac er bod y newyddion am fuddsoddi yn y ffatri yn cael ei groesawu, mae nifer y swyddi posib sydd mewn perygl yn destun pryder mawr. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw fanylion am y cyfnod pontio arfaethedig ond hysbysir y cyngor wrth i ragor o wybodaeth ddod ar gael.

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor yr wybodaeth ddiweddaraf am bolisi 20 mya Llywodraeth Cymru a weithredwyd ar ffyrdd cyfyngedig ledled Cymru ar 17 Medi 2023. Bwriad y polisi yw lleihau nifer a difrifoldeb yr anafusion, er mwyn galluogi mwy o bobl i ddefnyddio teithio llesol, lleihau effeithiau amgylcheddol a gwella ansawdd bywyd. Darparwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i weithredu'r newid polisi dros ddwy flynedd ariannol. Mae'r canllawiau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i wneud eithriadau i'r polisi 20 mya yn gyfarwyddol, cafodd pob eithriad a gyflwynwyd gan y cyngor ei archwilio gan Drafnidiaeth Cymru cyn y gellid ei weithredu. Mae datganiadau diweddar gan weinidogion yn awgrymu mai awdurdodau priffyrdd lleol sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu rhoi terfynau cyflymder ar waith, er nad yw unrhyw ddiwygiadau o newid fel rhan o'r polisi yn cael eu cefnogi eto gan gyllid ychwanegol. Bydd effaith lawn y newid polisi yn dod i'r amlwg dros y chwe mis nesaf, mae'n cael effaith gadarnhaol a negyddol eang ar draws y fwrdeistref sirol. Mae swyddogion wedi monitro'r newidiadau a gyflwynwyd a bydd angen rhai newidiadau lleol, ymgynghorir ag aelodau lleol a phreswylwyr wrth i hyn gael ei gyflwyno.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CYNGOR**

Cymeradwywyd cofnodion 12 Gorffennaf 2023 fel cofnod gwir a chywir.

5. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd

6. **CYFLWYNIAD I'R CYNGOR GAN HEDDLU DE CYMRU**

Croesawodd y Maer y Prif Uwch-arolygydd Chris Truscott, Comander Is-adrannol ar gyfer Is-adran y Gorllewin a'r Uwch-arolygydd Eve Davies, a roddodd gyflwyniad o bell i'r cyngor ar y sefyllfa bresennol ar gyfer Heddlu De Cymru.

Canmolodd yr Aelodau broffesiynoldeb ac arbenigedd yr heddlu dros y deunaw mis diwethaf a dywedwyd y gall technoleg megis adnabod wynebau a chymwysïadau TG arwain at arbed arian o bosib.

Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd y bydd gwaith atal ac ymateb cyflym yn dal i gael ei wneud mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, o ystyried y pwysau ar adnoddau presennol. Cadarnhaodd y Prif Uwch-arolygydd Truscott fod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn flaenoriaeth uchel ac er gwaethaf pwysau ariannol mae'r llu wedi ymrwymo i blismona cymdogaeth ac mae buddsoddiad yn parhau mewn perthynas â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Gwnaed ymrwymiad y bydd timau'n parhau i weithio'n rhagweithiol gyda'r holl bartneriaid ac aelodau i ddatrys problemau sy'n effeithio ar gymunedau lleol

Gwnaeth yr Aelodau sylwadau am ymdrechion rhagorol Heddlu De Cymru i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau a throeddau difrifol a chyfundrefnol. Gofynnodd yr Aelodau pa fesurau ychwanegol y gellid eu cymryd i fynd i'r afael â defnyddio sylweddau ac i ba raddau yr oedd Heddlu De Cymru wedi ymgysylltu â Chomisiwn Cyffuriau Bae Gorllewin a sefydlwyd yn ddiweddar. Cydnabu'r Prif Uwch-arolygydd Truscott fod ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau yn gysylltiedig ac yn parhau i fod yn bryder. Er y byddai gorfodaeth yn dal i fod ar waith ar gyfer y rheini sy'n achosi'r lefel uchaf o niwed, mae angen gwaith partneriaeth hefyd mewn perthynas ag addysgu pobl ifanc. Rhoddodd yr Uwch-arolygydd Eve Davies drosolwg o'r Prosiect Adder.

Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth yn ymwneud ag adroddiadau yn y cyfryngau am gynlluniau i gyfyngu ar ymatebion i rai mathau o ddigwyddiadau a gofynnwyd a fyddai unrhyw gyfyngiadau'n cael eu gosod yn lleol, yn enwedig mewn perthynas â phobl agored i niwed mewn argyfwng. Amlinellodd y Prif Uwch-arolygydd Truscott y

rhaglen Right Care Right Person, sydd wedi'i mabwysiadu'n genedlaethol ac sy'n cael ei gweithredu ledled Cymru a Lloegr. Mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas ag ymarferoldeb y rhaglen ac mae nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu â phartneriaid yn cael eu cynnal. Rhoddir blaenoriaeth bob amser i bobl sydd mewn argyfwng sylweddol ac uniongyrchol, ond nodwyd mewn rhai sefyllfaoedd, lle nad oedd bygythiad uniongyrchol i fywyd, y gall partneriaid eraill fod yn y sefyllfa orau i fod yn bresennol. Bydd angen dealltwriaeth glir o gyfrifoldebau pob sefydliad partner. Mae'r gwaith cychwynnol o gyflwyno'r rhaglen wedi'i gynllunio ar gyfer blwyddyn newydd/gwanwyn 2024.

Amlinellodd yr Aelodau y materion diweddar ym Mharc Ynni Baglan a phwysleisiwyd pwysigrwydd cyfarfodydd misol rhwng Cynghorwyr a'r heddlu i ddatrys unrhyw faterion.

Dywedodd yr Aelodau fod llawer o breswylwyr wedi colli hyder wrth ffonio'r heddlu a gofynnwyd a oes data ar gael ynghylch cynnydd troseddau yr adroddwyd amdanynt. Rhoddodd y Prif Uwch-arolygydd Truscott sicrwydd fod materion blaenorol o ran trin galwadau ffôn wedi gwella ond roedd yn cydnabod bod angen mwy o waith mewn plismona cymdogaeth i adennill hyder y cyhoedd. Mae data am drin galwadau sy'n cael eu derbyn a'r gyfran ymateb ar gael.

Cyfeiriodd yr Aelodau at ymateb annigonol yr heddlu i'r aflonyddwch cyhoeddus a ddigwyddodd ym Mayhill, Abertawe a gofynnwyd a allai hyn ddigwydd eto. Cydnabu'r Prif Uwch-arolygydd Truscott fod yr heddlu wedi dysgu gwersi o ddigwyddiad Mayhill a bod argymhellion yr adolygiad annibynnol wedi eu rhoi ar waith. Profwyd yr argymhellion hyn yn ystod aflonyddwch cyhoeddus tebyg yn Nhrelái ac roeddent wedi gweithio'n dda.

Holodd yr Aelodau a fyddai unrhyw newidiadau i'r praesept eleni. Nid oedd y Prif Uwch-arolygydd Truscott yn gallu gwneud sylwadau ynghylch hyn ond yn dilyn ymgynghoriadau gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, bydd yr Aelodau'n cael eu diweddarau am unrhyw newidiadau.

Mynegodd yr Aelodau rwystredigaeth ynghylch amharoddrwydd yr heddlu i ymyrryd mewn anghydfodau rhwng cymdogion a'r achosion uchel o niwsans beiciau modur ar y ffordd ac oddi ar y ffordd, a holwyd a ellid defnyddio dronau i helpu i fynd i'r afael â'r mater penodol hwn.

Gwnaeth yr Aelodau sylw am batrwm shifft y Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghwm Afan; nid yw patrymau shifft cyfredol yn darparu ar gyfer digon o staff. Bydd y Prif Uwch-arolygydd Truscott yn sicrhau bod y patrymau shifft yn cael eu hadolygu ond sicrhodd fod timau plismona cymdogaeth eraill ar gael i ymateb i unrhyw ddigwyddiadau brys.

Diolchodd Aelod y Cabinet dros Dai a Diogelwch Cymunedol i'r Prif Uwch-arolygydd Chris Truscott a'r Uwch-arolygydd Eve Davies am eu cyflwyniad a'u hymatebion manwl i gwestiynau'r Aelodau.

7. **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 2022-23**

Cyflwynodd Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd Adroddiad Blynyddol 2022/23, cyfeiriwyd at hepgoriad yn yr adroddiad, roedd Aelodau'r Pwyllgor, y Cyng. Phil Rogers a'r Cyng. Wayne Carpenter wedi cael eu hepgor o'r adroddiad mewn camgymeriad. Bydd yr esgeulustod hwn yn cael ei gywiro. Diolchodd yr Aelodau i'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd am eu cefnogaeth.

PENDERFYNWYD: Bod y cyngor yn nodi ac yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd 2022/23 sydd ynghlwm yn Atodiad 1.

8. **NEWIDIADAU I GYMESUREDD GWLEIDYDDOL AC AELODAETH PWYLLGORAU**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad, gan amlinellu'r gyfran arfaethedig o seddi ar bwyllgorau'r cyngor i'r grwpiau gwleidyddol. Daw hyn yn sgîl hysbysiad y Cyng. Angharad Aubrey ei bod yn bwriadu eistedd fel aelod o grŵp Rhyddfrydol a Gwyrdd Coedffranc.

Rhoddodd y Cyng. Aubrey ddatganiad byr i'r cyngor ynglŷn â'i phenderfyniad i adael y Blaid Lafur.

PENDERFYNWYD: Bod y cyngor yn cymeradwyo dyrannu seddi'n gymesur i'r grwpiau gwleidyddol fel y'u nodir yn Atodiad 1:

Bod y cyngor yn cymeradwyo'r newidiadau i aelodaeth pwyllgorau fel y nodir yn yr adroddiad.

- Bod y Cyng. S Thomas yn cael ei ddileu fel aelod o'r Pwyllgor Cofrestru a Thrwyddedu.
- Bod y Cyng. S Thomas yn cael ei ddileu fel aelod o'r Pwyllgor Deddfau Trwyddedu a Gamblo.
- Bod y Cyng. A Aubrey yn cael ei ddileu fel aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Bod y Cyng. S Grimshaw yn cael ei benodi'n aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Bod y Cyng. S Thomas yn cael ei ddileu fel aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
- Bod y Cyng. S Reynolds yn cael ei benodi'n aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
- Bod y Cyng. S Reynolds yn disodli'r Cyng. S Thomas ar y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
- Bod y Cyng. A Aubrey yn cael ei ddileu fel aelod o'r Panel Apeliadau
- Bod y Cyng. S Paddison yn cael ei benodi'n aelod o'r Panel Apeliadau
- Bod y Cyngorwyr S Grimshaw ac S Freeguard yn cael eu dileu fel aelodau o Bwyllgor Craffu Gwasanaethau'r Amgylchedd, Adfywio a Strydlun
- Bod y Cyngorwyr S Thomas ac R Wood yn cael eu penodi fel aelodau o Bwyllgor Craffu Gwasanaethau'r Amgylchedd, Adfywio a Strydlun
- Bod y Cyngorwyr A Aubrey ac A Lockyer yn cael eu dileu fel aelodau o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Diogelwch Cymunedol
- Bod y Cyngorwyr D Whitlock ac S Freeguard yn cael eu penodi fel aelodau o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Diogelwch Cymunedol.
- Bod y Cyng. A Aubrey yn cael ei ddileu fel aelod o'r Panel Rhianta Corfforaethol
- Bod y Cyng. S Freeguard yn cael ei benodi'n aelod o'r Panel Rhianta Corfforaethol
- Bod y Cyng. D Whitlock yn cael ei ddileu fel aelod o'r Pwyllgor Craffu Addysg, Sgiliau a Lles
- Bod y Cyng. D Keogh yn cael ei benodi'n aelod o'r Pwyllgor Craffu Addysg, Sgiliau a Lles
- Bod y Cyng. A Lockyer ac S Renkes yn cael eu penodi'n ddirprwyon ar y Panel Apeliadau
- Bod y Cyng. A Aubrey yn cael ei benodi'n aelod o'r Pwyllgor Cofrestru a Thrwyddedu.

- Bod y Cyng. A Aubrey yn cael ei benodi'n aelod o'r Pwyllgor Deddfau Trwyddedu a Gamblo
- Bod y Cyng. N Goldup John yn cael ei ddileu fel aelod o'r Pwyllgor Cynllunio
- Bod y Cyng. A Aubrey yn cael ei benodi'n aelod o'r Pwyllgor Cynllunio
- Bod y Cyng. K Morris yn cael ei ddileu fel aelod o'r Pwyllgor Personél
- Bod y Cyng. J Jones yn cael ei benodi'n aelod o'r Pwyllgor Personél.

9. **CYTUNDEB CYFLAWNI CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD (CDLL) 2021-2036 DIWYGIEDIG**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol, Trafnidiaeth a Chysylltedd yr adroddiad.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y cytundeb cyflawni drafft a'r crynodeb o newidiadau a oedd ar dudalen 35 yr adroddiad a gofynnwyd pa wahaniaethau a ddisgwylir o'r cynllun diwygiedig. Dywedodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd wrth aelodau fod sgysiau yn parhau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gwerthfawrogi ein heriau lleol ac sy'n gefnogol o'r dull hwn. Bydd y cynllun diwygiedig yn galluogi i astudiaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth gael eu diweddarau, yn ogystal ag adeiladu ar faterion allweddol sydd wedi codi yn ddiweddar megis y penderfyniad ar Borthladdoedd Rhydd a thrawsnewid Tata Steel. Mae ansicrwydd hefyd mewn rhai meysydd polisi allweddol (e.e. Llifogydd TAN15) o fewn Llywodraeth Cymru a rhagwelir y bydd sefyllfa'r polisi yn cael ei diweddarau a'i hegluro yn y gwanwyn. Y bwriad yw ailadrodd y broses safle ymgeisiol, gan edrych ar y trothwyon baich sy'n seiliedig ar dystiolaeth y mae'n rhaid iddynt gefnogi unrhyw gyflwyniad, er mwyn annog mwy o safleoedd i ddod ymlaen.

Dywedodd yr Aelodau ei bod yn braf bod effaith cymunedau'r Cymoedd yn cael ei hail-ystyried a chydabuwyd bod y gwagle o amgylch llwybr coridor yr M4 wedi'i gyfyngu.

Cwestiynodd yr Aelodau a fyddai safleoedd ymgeisiol a gyflwynwyd yn flaenorol yn cael eu cosbi ac o bosib yn cael eu colli oherwydd rhesymau ariannol, a oes unrhyw dystiolaeth y bydd oedi ac ailagor yr alwad yn galluogi ar gyfer cyrraedd y niferoedd gofynnol? Cadarnhaodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd y byddai

safleoedd ymgeisiol sydd eisoes wedi'u cyflwyno yn cael eu symud ymlaen ac ni fyddai angen ailgyflwyno.

PENDERFYNWYD: Cytuno ar Gytundeb Cyflawni'r CDLI, fel y'i cyflwynwyd yn Atodiad 2 i'r adroddiad a ddosbarthwyd, ar sail ymgynghori a chyflwyniad dilynol i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

Dirprwyo gwneud penderfyniadau ar ymatebion i unrhyw sylwadau a dderbyniwyd yn dilyn ymgynghoriad i'r Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet dros Gynllunio Strategol, Trafnidiaeth a Chysylltedd. Bod unrhyw newidiadau sylweddol y penderfynwyd eu bod yn angenrheidiol ar gyfer y Cytundeb Cyflawni, yn cael eu cyflwyno i'r cyngor i'w cymeradwyo.

10. **HYSBYSIAD O GYNNIG O DAN ADRAN 10 O RAN 4 (RHEOLAU GWEITHDREFN) CYFANSODDIAD Y CYNGOR**

Ni dderbyniwyd unrhyw Rybudd o Gynnig.

11. **CWESTIYNAU GAN AELODAU, GYDA RHYBUDD, O DAN REOL 9.2 O REOLAU GWEITHDREFN Y CYNGOR**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

12. **EITEMAU BRYD**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

CADEIRYDD